CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU
COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES

DISGRIFIAD SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG

SIR FYNWY **PIERCE, ALCOVE AND PIERCEFIELD WOODS**

Dyddiad Hysbysu: 1971, 1983

Cyfeirnod Grid Cenedlaethol: ST 530958

Mapiau Ordnans: 1:50,000 Rhif taflen: 162
1:25,000 Rhif taflen: ST591

Arwynebedd y safle: 78.1 ha

Disgrifiad:

Coetiroedd Dyffryn Gwy isaf yw un o'r ardaloedd pwysicaf ar gyfer gwarchod natur coetir ym Mhrydain, a gellir eu cymharu â fforestydd pinwydd yr Alban, coedydd derw arforol gorllewin Prydain, y Fforest Newydd a choedlannau cymysg Dwyrain Anglia. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill, mae'r coetir lled-naturiol yn doreithiog ac yn ddi-dor fwy neu lai ar hyd y ceunant. Mae'r coedydd yn gymysgedd o sawl math, rhai ohonynt yn lleol iawn, e.e. y cellïoedd pisgwydd-derw digoes ar galchfaen; clystyrau ffawydd ar briddoedd asidaidd ac alcalinaidd lle mae pisgwydd, llwyf, derw a rhywogaethau eraill yn gyd-drech. Mae'r rhan fwyaf o goedydd yn gymysgedd gyfoethog o fathau o gelli, y credir eu bod yn debyg eu cyfansoddiad i goedydd naturiol gwreiddiol y dyffryn. Ceir yma lawer o rywogaethau prin a lleol, gan gynnwys rhai o'r rhywogaethau coed brodorol prinnaf (e.e. pisgwydd deilen fawr, cerddin), a choed yn agos at derfyn eu cyrhaeddiad Ewropeaidd, e.e. oestrwydd, ffawydd. Ar ben hynny, saif y coedydd hyn mewn matrics o laswelltir heb ei wella a chynefinoedd lled-naturiol eraill sydd, ynghyd â'r coedydd, yn peri mai Dyffryn Gwy yw un o'r ardaloedd mwyaf amrywiol, cyfoethog ac atyniadol yn neheudir Prydain.

Mae Coed Pierce, Alcove a Piercefield yn ardal o goetir lled-naturiol cymysg, sef yn bennaf ffawydd *Fagus sylvatica* /yw *Taxus baccata* /pisgwydd *Tilia cordata* gydag adeiledd coedlan greiriol ac ambell goeden unigol ar lethrau serth yn wynebu'r dwyrain. Ceir trawsnewid diddorol o fathau coetir asidaidd at rai calchaidd yng Nghoed Pierce. Mae yno nifer o rywogaethau planhigion prin neu leol, gan gynnwys pisgwydd deilen fawr *Tilia platyphyllos* a sawl rhywogaeth o gerddinen *Sorbus spp.*. Mae'r oestrwydd *Carpinus betulus* a *Sorbus aria* ar derfyn eu hamrediad yma. Mae'r clogwyni'n cynnal yr unig grehyrfa yn Nyffryn Gwy isaf ac mae'r ogofâu'n fan clwydo pwysig i nifer o rywogaethau ystlumod.

Sylwadau:

Saif y safle o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy.

NID yw'r ddogfen hon yn fersiwn gyfreithiol derfynol ac mae wedi cael ei fformatio, ei diweddaru a'i golygu'n rhannol i'w defnyddio ar Wefan y Cyngor Cefn Gwlad. Ni ddylid defnyddio'r ddogfen hon yn unrhyw achos cyfreithiol, ymchwiliad cyhoeddus nac unrhyw apêl neu wrandawiad arall. Os byddwch

angen copi cyfreithiol llawn o'r ddogfen, cysylltwch â'r Cyngor Cefn Gwlad yn ysgrifenedig os gwelwch yn dda.